

Ysgol Gymraeg Llwynderw



Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni 2024-2025

Yma gyda'n gilydd yn gwneud ein gorau glas

Llywodraethwyr @ 31.08.25

Mrs Rachel Collins - Pennaeth

Mrs Ann Evans - Llywodraethwr Cymunedol - **Cadeirydd y Llywodraethwyr**

Mrs Rebecca Routledge - Cynrychiolydd Staff Addysgu

Mrs Carly Chinhengo - Cynrychiolydd Staff Cymorth

Mrs Emma Beynon - Llywodraethwr Awdurdod Lleol

Mr Chris Prosser - Rhiant-lywodraethwr wedi'i benodi drwy etholiad rhiant - tan 16.03.2026

Mrs Anwen Jones - Rhiant-lywodraethwr wedi'i phenodi drwy etholiad rhiant - tan 26.11.2028

Mrs Nerys James - Rhiant-lywodraethwr wedi'i phenodi drwy etholiad rhiant - tan 09.07.2027

Mrs Laura Poiner - Rhiant-lywodraethwr a benodwyd drwy etholiad rhieni - tan 02.10.2027

Mr Martyn Jones - Llywodraethwr Cymunedol

Mrs Lowri Davies – Llywodraethwr Cymunedol

Clerc – Mrs Lowri Phillips

Bydd y broses etholiadol nesaf ar gyfer rhiant-lywodraethwr newydd yn digwydd ym mis Chwefror 2026

Manylion cyswllt Cadeirydd y Llywodraethwyr a Chlerc y Llywodraethwyr:

Ysgol Gymraeg Llwynderw - Llywodraethwyr

Lôn West Cross

West Cross

Abertawe

SA3 5LS

Ebost: 6702235_ygglwynderw@hwbcymru.net

Dyletswyddau'r llywodraethwyr yw

- gweithio'n agos gyda'r pennaeth i sicrhau bod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol.
- bod yn gyfrifol am ymddygiad cyffredinol yr ysgol.
- archwilio cwricwlwm yr ysgol yng ngoleuni polisiau'r Awdurdod Addysg.
- penderfynu a yw addysg rhyw yn rhan o gwricwlwm yr ysgol.
- cynnig egwyddorion i'r pennaeth wrth benderfynu ar bolisi disgyblaeth
- rheoli arian sydd wedi'i drosglwyddo o'r Awdurdod Addysg.
- fod yn gyfrifol am benodi staff yr ysgol.
- sicrhau bod gwybodaeth am yr ysgol ar gael i'r rhieni.
- fod yn gyfrifol am drefnu adroddiad blynyddol i'r rhieni.

Mae gan rieni yr hawl i ofyn am gyfarfod â'r llywodraethwyr i drafod cynnwys yr adroddiad ac unrhyw fater arall sy'n ymwneud â bywyd yr ysgol. Rhaid i'r llywodraethwyr dderbyn deiseb gydag enwau o leiaf 10% o rieni plant cofrestredig yr ysgol er mwyn cynnal hyd at 3 cyfarfod y flwyddyn. Ni ofynnwyd am unrhyw gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn

Yma gyda'n gilydd yn gwneud ein gorau glas

Rhestr Pethau i'w Gwneud

Wedi neud

- * Dewrnod secwinau a Sparkles i ddathlu ein Gwobr Eco Platinwm ✓
- * Bore coffi McMillan ✓
- * Nosweithiau gwybodaeth i rieni ✓
- * Diwrnod Shwmae 'Sumae' ✓
- * Blynnyddoedd 1 - 6 —Pantomeim yn Neuadd Gwyn, Castell-nedd ✓
- * Cyngherddau Nadolig ✓
- * Hyfforddiant beicio ar gyfer blwyddyn 6 ✓
- * Gweithdai Rheoleiddio Emosiynau CAMHS i rieni ✓
- * Diwrnod Siwmpwr Nadolig ✓
- * Cyfleoedd a gweithgareddau pontio Blwyddyn 6 ✓
- * Blwyddyn 3 a 4 - Ymweliad â'r Glynn Vivian ✓
- * Cyflwyniad i rieni—Glasbrint Perthynas ✓
- * Disgo amryliw ✓
- * Ffair Nadolig a Haf ✓
- * Diwrnod Plant Mewn Angen ✓
- * Cyflwyniad CAMHS —Gwydnwch ✓
- * Cyflwyniad Cynllun Datblygu Ysgol i rieni ✓
- * Blynnyddoedd 3 a 4 - Dyddiau Fictoraidd ✓
- * Cyfleoedd i rieni weld llyfrau ysgol y plant ✓
- * Blynnyddoedd 3 a 4 - Sain Ffagan ✓
- * Mabolgampau ✓
- * Eisteddfod Ysgol a dathliadau Dydd Gŵyl Dewi ✓
- * Cystadlaethau Eisteddfod yr Urdd ✓
- * Dathliadau Diwrnod Cerddoriaeth Cymru ✓
- * Diwrnod y Llyfr Llwynderw ✓
- * Blynnyddoedd 5 a 6 - Stiwdios Harry Potter ✓
- * Derbyn - Ymweliad â WWT Llanelli ✓
- * Gwasanaethau dosbarth i rieni ✓
- * Blynnyddoedd 4 - 6 - teithiau preswyl ✓
- * Dathlu datblygiad cerddorol yn Llwynderw ✓
- * Gwybodaeth i rieni ar hyrwyddo strategaethau darllen gyda phlant ✓

Yma gyda'n gilydd yn gwneud ein gorau glas

Cysylltiadau â'r Gymuned

Côr yn canu yng Ngŵyl y Mwmbwls

Côr yn canu yn y Mwmbwls - goleuadau
Nadolig yn troi ymlaen

Côr yn canu yn Eglwys yr Holl Saint, y
Mwmbwls

Côr yn canu yn Eglwys Sant Pedr, New-
ton

Gŵyl Tawe – Can Actol a'r grŵp drymio
yn perfformio

Partneriaid Cynradd - Can Actol yn cael
ei berfformio yn Theatr y Grand

Gwersi Cymraeg i deuluoedd yn yr ys-
gol, sy'n cael eu rhedeg gan y Brifysgol

Rhoddion o wisg ail-law a roddwyd i
elusen

Lluniau unigol a dosbarth a dynnwyd gan fusnes lleol; Roz a Kirsty

Ffrwythau wedi'u harchebu a'u dosbarthu'n wythnosol gan y grosers lleol

Gwirfoddolwyr partner darllen

Diwrnod Môr-ladron – casgliad ar gyfer RNLI y Mwmbwls a chystadleuaeth gydag
ysgolion lleol

Sesiynau Ti a Fi i blant oedran cyn-ysgol yn cael eu cynnal yn wythnosol yn yr ysgol

'Coffi a Sgwrsio' i rieni ddod i'r ysgol yn wythnosol i ymarfer siarad Cymraeg mewn
amgylchedd anffurfiol



Yma gyda'n gilydd yn gwneud ein gorau glas

Cyfleoedd chwaraeon ac addysg gorfforol / Clybiau ar ôl ysgol

-Gwersi nofio i bob disgybl 3 – 6 oed; hanner tymor yr un

-Clybiau allgyrsiol wythnosol:

pêl-rwyd, pêl-droed, chwaraeon i ferched, clybiau chwaraeon cymysg, rygbi cyswllt

-Pêl-droed, rygbi, criced, athletau, pêl-rwyd, twrnameintiau pêl-fasged

-Mabolgampau

-Milltir dyddiol

-Gŵyl chwaraeon Blwyddyn 6

-Clocio

-Dawnsio Gwerin

-Côr

-Gwersi offeryn wythnosol

Rhoddion elusennol

· Bore Coffi Macmillan **£210.27**

· Plant mewn Angen **£531.09**

· Diwrnod Siwmpwr Nadolig – Achub y Plant **£151**

· RNLI **£200**

· Diwrnod Trwyn Coch **£51**

Staff a adawodd yn ystod y flwyddyn:

Mr Tomos Sparnon

Miss Tia Buse

Mrs Elen Cheshire

a chroeso mawr i...

Ms Sian Jones



Absenoldebau awdurdodedig: 5.1%

Absenoldebau heb awdurdod: 1.2%

Parhaodd pob disgybl a adawodd yr ysgol yn ystod y flwyddyn â'u haddysg mewn sefydliadau eraill

Yma gyda'n gilydd yn gwneud ein gorau glas

Opportunities throughout the year



- Garddio
- Prynawn Sgiliau Cerddoriaeth
- Gwasanaethau dosbarth
- 'Coffi a Sgwrs' bob bore Gwener



- Ysgol goed bob pythefnos
- Cerddorfa bob wythnos



- Ymarfer côr, 'Can Actol', dawnsio gwerin
- Clwb digidol wythnosol
- Cynorthwyfeydd galw heibio i rieni/gofalwyr
- Gwersi Kerbcraft i ddisgyblion blwyddyn 2

- Dathliadau'r cynhaeaf
- Cyngherddau'r Nadolig
- Ffair Nadolig a haf
- Diwrnod 'Dewch â rhiant i'r ysgol'
- Boreau coffi



- Diwrnod Miwsic Cymru
- Digwyddiadau pontio i flwyddyn 6
- Nosweithiau rhieni
- Eisteddfod yr Urdd
- Dathliadau wythnos awyr agored/bws cerdded

- Diwrnod Plant Mewn An-gen
- Disgo'r Hydref a Santes Dwynwen
- Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi / Eisteddfod yr Ysgol
- Diwrnod y Llyfr



Yma gyda'n gilydd yn gwneud ein gorau glas

Cynllun Datblygu Ysgol - Blaenoriaethau 2024/25

1. Hyrwyddo ethos o barch ar draws yr ysgol er mwyn codi safonau a gwella ymddygiad
2. Arwain disgyblion ysgol Llwynderw i fod yn ddisgyblion annibynnol sy'n dyfalbarhau wrth wynebu her.

Datganiad o Wariant Gwirioneddol Blwyddyn Ariannol 2024/25

Gwariant	£	Incwm	£	CRONFEAU WRTH GEFN:	£
Cyflogau Athrawon	1,058,444	Incwm Grant	-296,256	Dyraniad fformiwla terfynol:	1,255,131
Cyflogau	320,141	Incwm Arall	-203,693	Cyfanswm gwariant net:	1,292,368
Costau Cyflogeion Eraill	1,815	Incwm Gros	-499,949	Trosglwyddiad o gronfeydd wrth gefn:	-37,237
Adeilad	20,676			Balans cronfeydd wrth gefn agoriadol	
Cludiant	280			@ 01/04/24	£157,145
Cyflenwadau				Balans cronfeydd wrth gefn cau	
a Gwasanaethau	390,961			@ 31/03/25	£119,908
Gwariant Gros	1,792,317	Gwariant Net	£1,292,368		

Polisïau a Strategaethau

Cynhaliwyd adolygiadau a gwelliannau dilynol i bolisïau a chynlluniau gwaith er mwyn cydymffurfio â'r datblygiadau diweddaraf yn y cwricwlwm ac mewn meysydd eraill.

Bydd yr ysgol yn parhau i adolygu a diwygio polisïau yn ôl yr angen yn ystod y flwyddyn.

Hylendid



Rydym yn ffodus iawn bod adeilad yr ysgol a'r toiledau o safon uchel;

Dinas a Sir Abertawe sy'n gyfrifol am lanhau'r cyfleusterau;

Mae gan yr ysgol gyfleusterau i bobl anabl.



Yma gyda'n gilydd yn gwneud ein gorau glas

Tymhorau

Tymor yr hydref	01/09/2025	-	19/12/2025
Tymor y gwanwyn	05/01/2026	-	27/03/2026
Tymor yr haf	13/04/2026	-	20/07/2026

Hanner tymor

Hydref	27/10/2025	-	31/10/2025
Gwanwyn	16/02/2026	-	20/02/2026
Haf	25/05/2026	-	29/05/2026
Gwyl y banc	04/05/2026		

Diwrnodau HMS 01/09/2025, 02/09/2025, 05/01/2026, 13/02/2026, 13/04/2026, 20/07/2026

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mrs James-Perkins yw'r cydlynnydd Dysgu Ychwanegol. Mrs Laura Poiner yw'r Llywodraethwr sydd â chyfrifoldeb am ADY.

Mae darpariaeth briodol ar gael i blant ag anghenion dysgu ychwanegol a gwneir pob aelod o staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn hyn o beth. Yn unol â'r polisi, pan fo pryder ynghylch disgybl, bydd sgwrs gychwynnol gyda'r rhieni ac yna caiff ei rhoi ar gofrestr ADY yr ysgol a chymerir camau priodol i sicrhau'r gefnogaeth orau bosibl i'r disgybl. Gall y gefnogaeth hon olygu bod angen creu Cynllun Addysg Unigol (CAU) yn yr ysgol, gyda mewnbwn gan yr athro/athrawes dosbarth a'r Cydlynnydd ADY, ac weithiau mae'n cynnwys defnyddio arbenigedd asiantaethau allanol i gael cefnogaeth. Caiff rhieni eu hysbysu am unrhyw bryderon ac unrhyw gamau i'w cymryd.

Cwricwlwm a threfniadaeth addysg a dulliau addysgu

Ein cwricwlwm: Mwmbwls y Môr a Mwy

Yn Ysgol Gymraeg Llwynderw mae'n cwricwlwm yn paratoi ein disgyblion i fod yn ddysgwyr bywyd. Credwn yn gryf mewn cwricwlwm sy'n datblygu annibyniaeth, dyfalbarhad a gwytnwch pob disgybl.

Mae'n cwricwlwm wedi'i gynllunio i ddarparu addysg gynhwysol, amrywiol a chytbwys sydd â lles ein disgyblion yn ganolog in hethos. Mae'n ategu anghenion amrywiol ein disgyblion ac yn adlewyrchu nodweddion unigryw ein cymuned. Rydym yn dathlu'n cymuned gan gynnwys hanes lleol, diwylliant Cymreig a'n hamgylchedd naturiol ar lan y môr. Fel ysgol yng Nghymru, mae'n hanfodol i ni hyrwyddo a chodi balchder yn yr iaith Gymraeg a chyfoeth diwylliannol a threftadaeth Cymru.

Cymraeg

Fel ysgol cyfrwng Cymraeg, gwneir pob ymdrech i annog parch at yr iaith Gymraeg. Mae agwedd gadarnhaol yn hynod bwysig. Rhoddir pwyslais ar agwedd ddiwylliannol yr iaith a'r dreftadaeth Gymreig. Y Gymraeg yw iaith gymdeithasol yr ysgol ac anogir y plant i fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ysgol. Fel bob amser, rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth rhieni a gofawyr wrth annog hyn; anogwch eich plentyn yn weithredol i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn hynod bwysig, yn enwedig i blant o gefndiroedd di-Gymraeg.

Mae plant yn cael eu trochi yn yr iaith Gymraeg o'r adeg y maent yn mynd i'r Meithrin. Y Gymraeg yw'r unig gyfrwng a ddefnyddir yn y Blynyddoedd Cynnar. Cyflwynir Saesneg ar ddechrau blwyddyn 3. Datblygir Saesneg fel iaith yn ystod y pedair blynedd iau. Y Gymraeg yw prif iaith y cwricwlwm.

Erbyn i'r plant gyrraedd cyfnod yr Ysgol Gyfun, disgwylir iddynt fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg a gallu dilyn unrhyw bwnc yn y ddwy iaith.

Yma gyda'n gilydd yn gwneud ein gorau glas